**Atodiad 2**

Statws: ✅ Cyfraith Mewn Grym

# Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001/2279

Daeth y fersiwn hon i rym o: **1 Ebrill, 2016** hyd at y **presennol**

(fersiwn 2 o 2)

## 2. Amgylchiadau lle gellir caniatáu gollyngiadau

Gall pwyllgor safonau awdurdod perthnasol ganiatáu gollyngiad dan adran 81(4) y Ddeddf lle -

(a) mae gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl y digwydd) y bydd y mater yn cael ei ystyried ganddynt gysylltiad sy'n ymwneud â'r mater hwnnw;

(b) mae gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet awdurdod perthnasol y bydd mater yn cael ei ystyried ganddynt gysylltiad sy'n ymwneud â'r mater hwnnw ac mae naill ai paragraff (d) neu (e) hefyd yn berthnasol;

(c) yn achos cyngor sir neu fwrdeistref sirol, byddai anallu'r aelod i gymryd rhan yn rhwystro cydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu bwyllgor yr awdurdod y byddai'r mater yn cael ei ystyried ganddynt i'r fath raddau fel y byddai'n debyg o gael effaith ar y canlyniad;

(d) mae natur cysylltiad yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y mater y mae'r cysylltiad yn ymwneud ag o yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y cynhelir materion yr awdurdod perthnasol.

(e) mae'r cysylltiad yn gyffredin i'r aelod a chyfran sylweddol o'r cyhoedd;

(f) mae cyfranogiad yr aelod yn y mater y mae'r cysylltiad yn ymwneud ag o wedi ei gyfiawnhau gan swydd neu arbenigedd yr aelod penodol;

(g) mae'r mater y mae'r cysylltiad yn ymwneud ag o yn mynd i gael ei ystyried gan bwyllgor trosolwg ac archwilio'r awdurdod perthnasol ac nid yw cysylltiad yr aelod yn gysylltiad ariannol;

(h) mae'r mater a fydd yn cael ei ystyried yn ymwneud â chyllid neu eiddo

sefydliad gwirfoddol y mae ei bwyllgor neu fwrdd rheoli yn aelod ohono heb law am fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw gysylltiad arall yn y mater ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gyfranogiad mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â’r mater hwnnw; [...][1]

(i) mae’n ymddangos i’r pwyllgor ei bod er lles preswylwyr yr ardal o’r awdurdod perthnasol y dylid dileu'r analluedd [; neu] [2]

[(j) “mae’n ymddangos i’r pwyllgor ei bod yn briodol mewn modd arall i ganiatáu gollyngiad.

] [3]

## Nodiadau

1 . Di-rymwyd y gair gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016/85 rheoliad 4(3)(a) (1 Ebrill, 2016)

2 . Disodlwyd y gair gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016/85 rheoliad 4(3)(a) (1 Ebrill, 2016)

3 . Ychwanegwyd y gair gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016/85 rheoliad 4(3)(a) (1 Ebrill, 2016)

Atgynhyrchir deunydd Hawlfraint y Goron gyda chaniatâd Rheolydd HMSO ac Argraffydd y Frenhines dros yr Alban

**Testun:** Llywodraeth Leol

Westlaw.UK